Rhaglen Adloniant – Dydd Sadwrn 21 Tachwedd 2026
Marchnad Nadolig Caerffili

Amser	Perfformiwr
Drwy'r dydd	Adar ysglyfaethus
Drwy'r dydd	Stondinau Bwyd, Diod a Chrefft
Drwy'r dydd	Consesiynau Bwyd a Diod Poeth
Drwy'r dydd	Live Nativity
Drwy'r dydd	Gweithdai Crefft AM DDIM
Drwy'r dydd	Local Community Acts @ Castle Court Bandstand
Drwy'r dydd	Ffair Grefftau Caerffili gan Crafty Legs
Drwy'r dydd	Marchnad Crefft a Bwyd Cwrt y Castell
Drwy'r dydd	Lle'r Farchnad Caerffili
Drwy'r dydd	Ffos Caerffili
10.00am – 5.00pm	NYC Farm Christmas Cracker Fair (yn cynnwys Siôn Corn 11am - 1pm) yng Nghanolfan Gymunedol y Twyn
10.00am – 4.00pm	Rhaglen Gerddoriaeth
10.00am – 4.00pm	Rhaglen Gerddoriaeth Band Pres
10.00am	Pen Disgo 'Dolig (1)
10.15am	Festive Sheridan the Sheepdog (1)
10.30am	Scallywags (1)
11.00am	Gingerbread Man & Fairy (1)
11.15am	Elvish Pressies (1)
11.30am	Rollo the Reindeer (1)
11.45am	Pen Disgo 'Dolig (2)
12.00pm	Scallywags (2)
12.15pm	Lady Frost, Guardian of the Winter Kingdom (1)
12.45pm	Festive Sheridan the Sheepdog (2)
1.00pm	Christmas Ice King
1.00pm	Gingerbread Man & Fairy (2)
1.15pm	Elvish Pressies (2)
1.30pm	Pen Disgo 'Dolig (3)
1.45pm	Mischievous Elves (1)
2.00pm	Rollo the Reindeer (2)
2.15pm	Lady Frost, Guardian of the Winter Kingdom (2)
2.30pm	Christmas Ice King
2.30pm	Mischievous Elves (2)
3.15pm	Gingerbread Man & Fairy (3)
3.30pm	Elvish Pressies (3)

4.00pm	Christmas Ice King

**Gall y rhaglen hon newid.

Ragor am eich adloniant!

Busker Music Programme



Bydd rhai artistiaid lleol yn perfformio tra bydd pobl yn mwynhau eu bwyd a'u diod yn y mannau eistedd dan do o amgylch ardal Maes Parcio'r Twyn. Eisteddwch yn ôl, ymlaciwch, a mwynhewch yr awyrgylch Nadoligaidd hamddenol.

Emma Winer – 10.00am – 11.00am
Dee Calderon – 11.00am – 12.00pm
The SINGING Lessons– 12.00pm – 1.00pm
Secret Postal Society Official – 1.00pm – 2.00pm
Russell Jones – 2.00pm – 3.00pm
Holly Newbury – 3.00pm – 4.00pm

Facebook: Visit Caerphilly

Brass Band Music Programme



Bydd amrywiaeth o fandiau pres ac arian ar y safle gydag alawon Nadoligaidd i gael pawb i ysbryd yr ŵyl. Mae'n cynnwys Band Pres Cwm Ebbw, Band Dirwest Tongwynlais a Sefydliad Band Pres Melingriffith Dinas Caerdydd.

Ebbw Valley Brass Band - 10.00am – 12.00pm
M1 City of Cardiff (Melingriffith) Brass Band - 12.00pm – 2.00pm
Tongwynlais Temperance Band – 2.00pm – 4.00pm

Facebook: Facebook: Ebbw Valley Brass / Tongwynlais Temperance Band / Facebook: City of Cardiff Melingriffith Brass Band Organisation

Falconry UK



Bydd adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos er mwyn i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael ffotograffau gyda nhw, a dysgu am ffeithiau a chefndir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn.

Facebook: Falconry UK

Live Nativity



Dewch i ymuno â ni i fod yn rhan o Olygfa'r Geni. Gallwch wisgo fel Mair, Joseff, bugail, angel, neu ddyn doeth a chael eich hunlun! Rydyn ni'n darparu'r gwisgoedd ac rydych chi'n dod i gofio stori'r Nadolig go iawn, ac mae'r cyfan am ddim!

Facebook: connectlifechurch

Stondinau Bwyd, Crefft a Wybodaeth



Dros 60 o stondinau masnach yn gwerthu bwyd blasus a chrefftau unigryw, yn ogystal â nifer o stondinau gwybodaeth. Mwynhewch gacennau blasus a blasu diod neu ddwy gan y gwerthwyr gwirodydd, cwrw a seidr! Dewiswch anrhegion crefft unigryw i deulu a ffrindiau, neu pam na wnewch chi drin eich hun hefyd!

Facebook: Visit Caerphilly

Consesiynau Bwyd a Diod Poeth



Detholiad o fwyd a diodydd poeth i blesio'r daflod wrth i chi fwynhau'r dathliadau. O gastanwydd rhost poeth a malws melys wedi'u tostio, i gig mochyn rhost a byrgyrs! Beth am gael siocled poeth blasus i gyd-fynd â'r bwyd, neu i'w sipian wrth i chi fwynhau'r diwrnod!

Facebook: Visit Caerphilly

Canolfan Siopa Cwrt y Castell – Adloniant Llwyfan Band



Bydd Llwyfan Band Cwrt y Castell yn croesawu amrywiaeth wych o gerddorion, grwpiau dawns a chorau trwy gydol y dydd. Bydd nifer o berfformwyr o'r gymuned yn camu i'r llwyfan i ddiddanu pawb.

Facebook: Castle Court Shopping Centre, Caerphilly

Gweithdai Crefft Creu a Chymryd



Dewch draw i wneud crefft ar thema'r Nadolig i fynd â nhw adref. Mae'r gweithdy hwn yn rhoi'r cyfle i blant fod yn greadigol a chael hwyl!

Facebook: Creative Workshops for Children

Nant-y-Calch Farm Christmas Cracker @ Twyn Community Centre



Bydd Grŵp Cadwraeth Fferm Nant-y-Calch yn cynnal ffair Nadoligaidd yng Nghanolfan Gymunedol y Twyn. Bydd cyfle i gwrdd â Siôn Corn am ffi o £5 y plentyn sy'n credu (rhwng 11.00am ac 1.00pm). Bydd anrhegion Nadolig – hen, ail-law a newydd – ar gael, yn ogystal â gemau, cystadlaethau a chrefftau; bydd yr holl elw yn mynd tuag at achub Fferm Nant-y-Calch.

Facebook: Save Nant-y-Calch Farm!

Ffair Grefftau Caerffili gan Crafty Legs



Bydd y ffair grefftau fisol yn cael ei chynnal o amgylch y Senotaff, gyda thua 30 o grefftwyr yn cymryd rhan. O gelf a chrefft i addurniadau cartref a gemwaith, bydd digon o anrhegion wedi'u gwneud â llaw yn lleol ar gael – y cyfle perffaith i ddod o hyd i anrheg neu ddanteith unigryw a gwahanol.

Facebook - CraftyLegsEvents

Ffair Grefftau Lle'r Farchnad Caerffili – Morrisons



Mae'r farchnad grefftau fisol hon wedi'i lleoli yn Morrisons, Caerffili, ac mae'n cynnwys tua 25 o grefftwyr o fusnesau bach o Dde Cymru. Mae parcio hygyrch am ddim ar gael am hyd at 3 awr.

Facebook: Caerphilly Marketplace

Ffos Caerffili



Darganfyddwch galon marchnad newydd fywiog Caerffili, sydd ddim ond taith gerdded fer o Gastell eiconig Caerffili. Mae Ffos Caerffili yn fwy na marchnad yn unig; mae'n ganolfan gymunedol fywiog lle mae diwylliant lleol yn dod yn fyw. Wedi'i adeiladu o gynwysyddion cludo sydd wedi'u hailbwrpasu, mae'r lleoliad prysur hwn yn gartref i dros 20 o fasnachwyr annibynnol, sy'n cynnig popeth o fwyd stryd i nwyddau wedi'u crefftio â llaw. P'un a ydych chi'n blasu'r bwydydd diweddaraf, yn pori drwy nwyddau creadigol, neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau cyffrous, mae Ffos Caerffili yn addo profiad unigryw. Ac eleni, mae'r diwrnod yn nodi noson gyntaf erioed ein Marchnad Nadolig – y cyfle perffaith i fwynhau'r awyrgylch Nadoligaidd, prynu anrhegion unigryw, a mwynhau danteithion tymhorol gan ein masnachwyr.

Facebook: Ffos Caerffili

Castle Court Craft & Food Market



Mae Marchnad Crefft a Bwyd Castle Court wedi'i lleoli gyferbyn â Chastell Caerffili, yng Nghanolfan Siopa Castle Court. Mae'r farchnad fisol yn arddangos busnesau bach sy'n cynnig bwyd a chrefftau. Gyda nifer dda o ymwelwyr bob mis, parcio am ddim am hyd at 3 awr, ac awyrgylch croesawgar, mae Castle Court bob amser yn farchnad wych i ymweld â hi.

Facebook: Castle Court Shopping Centre, Caerphilly

Scally Wags



Oes gennych chi swllt, syr? Ffarthing? Ceiniog, felly, syr? Beth am wên, syr? Mae'r 'Victorian Scallywags' yn bâr o hogiau bywiog sy'n breuddwydio am fywyd o foethusrwydd. Gyda'u natur siriol a direidus, byddant yn cynhesu eich calon, yn eich swyno i roi cusan, neu'n eich tywys ar hyd y stryd. Gwell i chi wylio eich eiddo – a'ch gwragedd!

Facebook: Digging holes street theatre entertainment

Elvish Pressies



Yn teithio yn eu ceir taro hardd, mae'r sioe theatr crwydrol Nadoligaidd hwn, wedi'i ysbrydoli gan y 1950au, yn cyfuno Elvis a choblynnod gyda rhai alawon clasurol. Rhwng cribo eu gwallt a dawnsio fel Elvis,, bydd y cymeriadau hyn yn dod o hyd i'r hyn sydd ar eich rhestr Nadolig a ble mae'r parti'n digwydd, wrth gynnig cyngor o ran aros ar y rhestr da.

Facebook: Joogleberry

Pen Disgo 'Dolig



Mae hi'n amser partïon Nadolig i'r bêl ddisco ddisglair hon! Byddan nhw'n gwneud i chi ddawnsio yn y stryd wrth iddyn nhw ddathlu yn eu prif ddigwyddiad Nadoligaidd – 'Marchnad Nadolig Caerffili'!

Facebook: Boutique Entertainment LTD

Gingerbread Man & Fairy



Mae'r cymeriad hynod gofleidiol a digrif hwn yn gorymdeithio drwy'r dref yng nghwmni tylwyth teg cain, er mwyn sicrhau nad oes neb yn cymryd tamaid!

Facebook: Flying Colours

Sheridan the Sheepdog



Mae Sheridan y Ci Defaid yn ffigur mecanyddol adloniadol enwog sy'n siarad, yn chwarae alawon bach, ac yn reidio beic tair olwyn. Mae Sheridan y Ci Defaid – sydd wedi ymddangos yn y brif gylch yn Crufts – yn reidio o gwmpas ar ei feic tair olwyn, gan stopio ar y ffordd i chwarae alawon a syfrdanu ei gynulleidfa drwy sgwrsio â nhw.

Rollo the Reindeer



Mae Rollo yr Caribw yn adloniant mecanyddol enwog sy'n siarad, yn chwarae alawon, ac yn reidio beic tair olwyn. Mae Rollo yr Caribw yn crwydro o gwmpas ar ei feic tair olwyn, gan stopio ar y ffordd i chwarae alawon a syfrdanu ei gynulleidfa drwy sgwrsio â hwy.

Lady Frost, Guardian of the Winter Kingdom

Cymeriad gaeaf hudolus sy'n dod â chyffyrddiad o hud a lledrith stori dylwyth teg iâ i'r dathliadau, gan gynnig rhyngweithio cyfeillgar ac eiliadau hudolus i westeion o bob oed. Mae Lady Frost hefyd yn dod â phecynnau arbennig o fwyd caribou, sy'n cynnwys hadau adar o safon, i deuluoedd fynd adref a'u taenu ar Noswyl Nadolig.

Facebook: Katie & Friends

Brenin Iâ Nadolig



Yn syth o galon y Gwynt y Gogledd daw Brenin Iâ'r Nadolig – sioe weledol syfrdanol sy'n llawn hud y gaeaf. Gyda ffraethineb sych, rhewllyd, mae'n rhewi amser i greu eiliadau rhyngweithiol bythgofiadwy o ryfeddod yr ŵyl i bobl o bob oed.

Facebook: A 2 B Entertainment

Coblynnod Direidus



"Haloren oren Christmas Cringle tingle," i chi! Mae Hans a Heinz ar y strydoedd, yn gwirio eu rhestr Nadolig ac yn ceisio darganfod y rhai a allai fod wedi bod yn ddrwg neu'n garedig. Maen nhw'n dod ag ysbryd llawen y Nadolig i'r strydoedd.

Facebook: Digging holes street theatre entertainment